## Helo, a chroeso i Newyddion Datgeliad y DBS ar gyfer Tachwedd.

Mis yma, rwy'n falch iawn ein bod yn gallu dod â'n e-ganllaw newydd ar gyfer cwblhau'r ffurflen gais i chi, a gallwch ddarllen am hyn yn y rhifyn hwn. Mae'n newyddion mawr iawn gan y bydd y canllaw yn helpu lleihau'r nifer o ffurflenni cais a wrthodir oherwydd gwallau cwblhau ac esgeulustod. Mae hefyd yn arddangos ein hymroddiad i'r egwyddor o gyflawni gwasanaethau sy'n ddigidol yn ddiofyn ble bynnag fo'n bosibl.
Credaf fod yr e-ganllaw yn waith darllen allweddol i *bob* cydlofnodydd a'u hasiantau awdurdodedig sy'n gweithredu fel gwirwyr tystiolaeth – nid dim ond rhai sydd newydd eu recriwtio – felly cymrwch funud i weld sut y gallai weithio i chi. Roedd yr adborth gan ein cynulleidfa prawf yn bositif iawn, ond peidiwch â stopio rhannu'ch barn nawr gan fod hyn yn ddefnyddiol iawn i ni; mae yna holiadur byr ar ddiwedd yr e-ganllaw, er enghraifft, a byddem yn falch iawn i glywed gennych unwaith i chi gael cyfle i brofi'r canllaw ar waith eich hun.

Mae rhai heddluoedd yn dal i wynebu ôl-groniad wrth glirio ceisiadau o fewn yr amserau prosesu arferol, felly rydym yn darparu diweddariad arall i chi. Mae'n ddrwg iawn gennym os yw'r oedi yma yn cael effaith uniongyrchol arnoch, ond gallwn eich sicrhau fod cynlluniau ar waith yn yr heddluoedd dan sylw i ddychwelyd at lefelau gwasanaethau mwy arferol, ac rydym eisoes yn gweld gwelliannau gwirioneddol. Bu hyn yn brif flaenoriaeth i ni. Bydd yn cymryd amser i sicrhau adferiad llawn, a byddwn yn dal i anfon newyddion atoch tan hynny.

Yn olaf, byddem yn falch iawn i gael gwybod a oes yna unrhyw faterion neu bynciau yr hoffech i ni eu trafod yn y dyfodol, neu os yr hoffech roi sylw ar y rhai yr ydym wedi eu cyhoeddi hyd yn hyn. Gobeithiwn gynnwys sampl ohonynt yn ein hadran 'adborth' yn y dyfodol.

Diolch am ddarllen a dymuniadau gorau.

**Sue Quigley**
**Cyfarwyddwr Gweithrediadau (Datgeliad)**

---

## diweddariad ar oediadau

Yn rhifyn Hydref, buom yn trafod yr ôl-groniadau y mae rhai heddluoedd yn delio â nhw. O'r mis hwn ymlaen, rydym yn disgwyl gweld y bydd rhai o’r heddluoedd a effeithiwyd yn dechrau adennill tir, ond mae'n bosibl y bydd yn rhai misoedd cyn i ni weld adferiad llawn gan yr holl heddluoedd.

Mae'n gyfnod anodd i bawb ohonom. Er gwaethaf hyn, rydym yn dal i gyflawni ein targed allweddol o gyhoeddi 75 y cant o'r holl Ddatgeliadau o fewn 14 niwrnod calendr i'w derbyn, a gobeithiwn y bydd y rhan fwyaf ohonoch a'ch ymgeiswyr yn elwa o hyn.

Gwyddom eich bod yn awyddus i ddilyn trywydd eich ceisiadau, oherwydd mae dros 4,000 ohonoch wedi troi at ein tudalen y we yn rhestru'r heddluoedd hynny sydd ag oediadau. Agorwch y tabl ‘Perfformiad Heddluoedd 2013’ i gael yr wybodaeth ddiweddaraf ar yr oediadau hyn neu berfformiad heddluoedd ar gyfer gwybodaeth fwy cyffredinol.

Cofiwch, mae ein gwasanaeth olrhain ar-lein ar gael am ddim, ar-lein, 24 awr o'r dydd er

mwyn i chi gael olrhain cynnydd unrhyw gais ar ein system.

---

## Lansio'r e-ganllaw heddiw

Rydym yn dalch iawn fod ein e-ganllaw i gwblhau ffurflen gais y DBS wedi ei lansio heddiw. Mae ar gael yn Gymraeg neu Saesneg gydag arweiniad ar sut i'w lawrlwytho a'i ddefnyddio.

Gan fynd trwy'r cais fesul adran, mae'r e-ganllaw yn dangos sut i gwblhau'r ffurflen gais yn gywir a chyflawn, gan osgoi'r posibiliad o'i gwrthod ac oedi diangen o ganlyniad. Rydym wedi gweithio gyda rhai ohonoch ar y prosiect hwn o'r cychwyn, ac o ganlyniad wedi cynnwys rhai cwestiynau yn seiliedig ar senarios, gan i'r rhain brofi i fod yn boblogaidd ymysg y rhai a fu'n ei brofi.

Yn ein digwyddiadau hyfforddiant dros yr haf, dywedodd dros 90 y cant ohonoch y byddech yn defnyddio e-ganllaw rhyngweithiol ar-lein. Ers hynny, rydych wedi helpu datrys rhai o'r materion cytunedd, gwella naws a gwedd y cynnyrch terfynol, ac wedi'n helpu i symud ymlaen o syniad i'r pwynt yma heddiw. Diolch o galon am eich help – yn wir ni fyddem wedi gallu gwneud hyn heboch.

Mae troi at ddigidol yn golygu'n bod wedi cynyddu ein cyrhaeddiad gan fod yr e-ganllaw ar gael i'w lawrlwytho 24 awr o'r dydd a galla gyrraedd pob un o'n cynulleidfa arfaethedig pan fydd yn gyfleus iddynt.

Mae'ch adborth yn allweddol, ac ar ddiwedd yr e-ganllaw gallwch ddewis cwblhau holiadur byr.

---

## Ffurflen gais: pethau pwysig i'w nodi

**Cwblhau cwestiwn e55**
I gefnogi gweithrediad cywir y ddeddfwriaeth hidlo a gyflwynwyd yn Mai eleni, ymhen hir a hwyr bydd angen addasu cwestiwn e55 trwy gyhoeddi ffurflen gais ddiwygiedig. Yn y cyfamser, rydym yn dal i ofyn i chi weithredu'r newid pwysig hwn gyda'ch ymgeiswyr.

Ar hyn o bryd, mae cwestiwn e55 yn gofyn i'r ymgeisydd:

'*A ydych chi erioed wedi eich euogfarnu am drosedd neu dderbyn rhybuddiad, cerydd neu rybudd?'*

Dylech gynghori pob ymgeiswyr y dylent nawr **anwybyddu'r** cwestiwn hwn, ac **yn hytrach** drin y cwestiwn hwn fel pe baent yn ateb:

***'A oes gennych unrhyw euogfarnau, rhybuddion, ceryddon, rhybuddiadau neu rybuddiadau terfynol, na ellid eu heithrio yn unol â chanllaw presennol?'***

Mae'n allweddol eich bod yn rhoi gwybod i ymgeiswyr am y newid hwn i sicrhau y dilynir y

gyfraith yn gywir.

**Hysbysiad Prosesu Teg:**
Ar dudalen flaen y ffurflen gais, rydym yn cynnwys Hysbysiad Prosesu Teg. Mae hyn yn datgan y manylion yr ydych chi a'r ymgeisydd yn eu cwblhau ar y ffurflen cais ac yn cael eu cyfeirio at yr heddlu a chyrff llywodraethol eraill, i helpu nodi cyfatebiadau posibl yn erbyn cofnodion a gedwir ganddynt.
Bellach mae yna ddiweddariad i'r hysbysiad hwn – gall DBS nawr hefyd ddefnyddio'r wybodaeth a ddarperir ar y dystysgrif, neu unrhyw wybodaeth arall y byddwn yn cael gwybod amdano, i hysbysu ystyriaeth o'n penderfyniadau rhwystro. Gallwn wneud hyn gan fod deddfwriaeth a gynhwysir yn y Ddeddf Diogelu Grwpiau Bregus 2006 yn rhoi grymoedd i wneud hynny.

Byddwn yn rhoi gwybod i chi unwaith y byddwn wedi diweddaru'r ffurflen gais gyda'r newidiadau hyn.

---

## Cyflwyno cais dilys

A wyddoch chi fod data ffurflen gais a gwybodaeth tystysgrif y DBS yn perthyn i'r ymgeisydd?

**Y data**
Pan fydd sefydliad yn gofyn i unigolyn wneud cais am dystysgrif DBS, mae angen iddynt ddweud beth yw'r rheswm dros y gwiriad a pha ddata a dogfennaeth sydd ei angen.

Cyn cyflwyno cais, mae'n allweddol eich bod yn cadarnhau:

- Fod y swydd yn gymwys ar gyfer gwiriad DBS ar y lefel dan sylw
- Fod y data sy'n cael ei anfon atom yn gywir a chyflawn
- Fod yr ymgeisydd yn ymwybodol o, ac wedi cydsynio i, ddefnyddio ei ddata i gefnogi y cais.

Gallai methiant i wneud hyn arddangos diffyg cydymffurfiaeth gyda'r amodau a atodwyd i gofrestriad y Corff Cofrestredig, gan wneud y cais yn annilys a chaniatáu ar gyfer ei ganslo. Mae hefyd yn bosibl y byddwch wedi gweithredu'n groes i'r Ddeddf Diogelu Data 1998.

Gwyddom o ganlyniad i ymholiadau gan gwsmeriaid am gynnydd eu cais, neu anghydfodau am gywirdeb y tystysgrifau, fod Cyrff Cofrestredig ac/neu eu sefydliadau cleient mewn rhai achosion wedi methu a sicrhau fod y data a roddir yn gywir a chyflawn. Mae hyn yn golygu nad yw'r cais yn ddilys ac y dylid cyflwyno cais newydd. Bydd angen talu'r ffi brosesu berthnasol unwaith eto.

I arbed amser ac arian, sicrhewch fod yr ymgeisydd yn gwirio fod manylion y cais sy'n cael eu cyflwyno yn gywir a chyflawn. Mae hyn hefyd yn gyfle delfrydol i roi gwybod i ymgeiswyr y gallant olrhain eu cais ar-lein ac ymuno â'r Gwasanaeth Diweddaru gyda'u cyfeirnod cais.

**Cyhoeddi'r dystysgrif**
Ers 17 Mehefin 2013, pan gyflwynwyd deddfwriaeth newydd, rhaid i ni gyhoeddi

tystysgrifau DBS i'r ymgeisydd yn unig. Mae hyn yn rhoi cyfle iddynt wirio fod y dystysgrif yn gywir ac i herio unrhyw wybodaeth a ddatgelwyd, cyn ei dangos i'r sefydliad sy'n gwneud y penderfyniad ar addasrwydd.

Mae rhai ymgeiswyr wedi adrodd nad ydynt wedi derbyn eu tystysgrif ac y rhoddwyd cyfeiriad 'dan ofal' fel eu cyfeiriad presennol yn adran b yn ddiarwybod iddynt a heb eu caniatâd. Dim ond dan amgylchiadau penodol iawn y byddwn yn derbyn cyfeiriadau 'dan ofal', ac yn yr achosion hyn dim ond gyda chydsyniad penodol yr ymgeisydd, yn rhannol gan y gall ychwanegu cyfeiriadau gynyddu'r amser a gymer i brosesu ceisiadau. Ni ddylech addasu na thrafod data'r ymgeisydd heb eu cyfraniad a chytundeb gan y gallai'ch gwneud yn agored i hawliad dan ddeddfwriaeth Diogelu Data.

Mae rhai ymgeiswyr hefyd wedi eu hannog i ofyn am ailargraffiad o'u Tystysgrif DBS gan eu Corff Cofrestredig neu gyflogwr i ddarparu copi parhaol i'r sefydliad sy'n ystyried eu haddasrwydd. Ni fyddwn yn darparu copi nac ailargraffiad dan yr amgylchiadau hyn gan ei bod yn gyfan gwbl yn groes i ysbryd y newidiadau deddfwriaethol a gyflwynwyd ym Mehefin, ac yn ychwanegu costau prosesu amhriodol i'r system.

Mae gan bob sefydliad ddyletswydd gyfreithiol i gydymffurfio â Deddf Diogelu Data 1998. Os yw ymgeisydd yn amau fod ei ddata wedi ei gyfaddawdu, gallant gysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth sy'n gallu ystyried cymryd camau yn erbyn unrhyw sefydliad sydd wedi trafod neu gamddefnyddio data personol.

---

## Gwasanaeth Diweddaru: a ydych chi'n ticio popeth oddi ar y rhestr?

Gwyddom y gallai cyflwyno'r Gwasanaeth Diweddaru olygu y bu'n rhaid i chi addasu'ch prosesu rhywfaint, felly rydym wedi bod yn ystyried sut allwn ni ddal i'ch helpu i gadw trywydd o bethau. Yn ystod y misoedd diwethaf, rydym wedi awgrymu sut y gallwch helpu ymgeiswyr i gael mynediad i'r Gwasanaeth Diweddaru a sut y gall eich sefydliad elwa o hyn.

Pan fyddwch yn mynd trwy'r broses o wneud cais am Ddatgeliad gydag unigolyn, mae sawl peth y gallwch wneud i'w helpu i ymuno â'r Gwasanaeth Diweddaru cyn gynted â phosibl. Rydym wedi cynhyrchu rhestr wirio cais y Gwasanaeth Diweddaru a derbynneb cyfeirio ffurflen gais fydd yn eich helpu i gyflawni hyn. Bydd cwblhau'r rhestr hon wrth i chi wirio a chyflwyno eich ceisiadau yn helpu gwella boddhad eich cwsmeriaid chi a ni.

Lawrlwythwch y templed rhestr wirio a derbynneb cyfeirio ffurflen gais a'i defnyddio i sicrhau eich bod wedi:

- ☑ Cwblhau'r gweithlu a swydd yr ymgeisiwyd ar ei chyfer yn gywir yn llinellau un a dau maes x61 ac o fewn y terfyn o 60 nod
- ☑ Cyfeirio'r ymgeisydd at ein gwefan i ymuno â'r Gwasanaeth Diweddaru
- ☑ Darparu cyfeirnod y ffurflen gais am Ddatgeliad neu dderbynneb e-gyfeirnod i'r ymgeisydd, i allu gwneud cais ar unwaith i ymuno â'r Gwasanaeth Diweddaru ac olrhain cynnydd ei gais ar-lein

- Sicrhau ein bod wedi derbyn y ffurflen gais am Ddatgeliad gennych o fewn 28 niwrnod i'r ymgeisydd yn ymuno â'r Gwasanaeth Diweddaru gyda'i gyfeirnod ffurflen gais

- Rhoi gwybod i'r ymgeisydd os yw'n ymuno â'r Gwasanaeth Diweddaru yn defnyddio ei rif tystysgrif DBS, mai dim ond 14 niwrnod sydd ganddo i wneud hynny o ddyddiad cyhoeddi'r dystysgrif – gyda'r diwrnod cyntaf y dyddiad cyhoeddi

---

## 'Diolch' yn fawr iawn am eich diddordeb yn yr offeryn cymhwyster ar-lein

Dros ben llestri! Dyna sut oedden ni'n teimlo pan sylweddolom fod dros 200 ohonoch wedi cofrestru eich diddordeb mewn profi'r offeryn o flaen llaw i'w lansio yn dilyn ein herthygl 'Offeryn Cymhwyster Ar-lein' yn rhifyn mis diwethaf. Mae hyn yn awgrymu y bydd ei lansiad yn boblogaidd iawn ac mae'n gyffrous i wybod eich bod yn credu y bydd yr offeryn yn ased gwerthfawr.

Diolch i bawb ohonoch a gymrodd amser i wneud hyn – rydym wir yn gwerthfawrogi hyn, ac yn falch iawn fod eich adborth mor bositif.

Rydym bellach wedi cysylltu â phawb a gysylltodd â ni i'w cynghori ynglŷn â'r broses ddethol, yn ogystal â'n cynlluniau i wahodd y rhai hynny nad ydynt wedi eu cynnwys yn y profion penodol i gynlluniau peilot eraill yn y dyfodol.

Mae'r offeryn yn dal i fod yn y cyfnod datblygu, ond cyn gynted ag y byddwn yn barod i fynd amdani, chi fydd y cyntaf i gael gwybod. Felly byddwch yn barod!

---

## Cysylltiadau

**Cyfeiriad**
PO Box 110
Lerpwl L69 3EF

**Ar gyfer materion a gwybodaeth Datgeliad, ffoniwch:**
Gwasanaethau Cwsmeriaid 0870 90 90 811
Llinell Minicom 0870 90 90 344
Llinell Gymraeg 0870 90 90 223

**Ar gyfer materion a gwybodaeth Gwahardd, ffoniwch:**
01325 953 795.

Fel sefydliad sydd newydd ei uno, mae gennym ddwy system ffôn wahanol, felly mae'n wir ddrwg gennym na allwn drosglwyddo eich galwad rhwng ein swyddfeydd.

**E-bost:**
customerservices@dbs.gsi.gov.uk

**Gwefannau:**
www.gov.uk/dbs

Defnyddiwch ein gwasanaeth olrhain ar-lein i wirio cynnydd ceisiadau DBS trwy droi at https://www.gov.uk/disclosure-barring-service-check/tracking-application-getting-certificate